

Adran Seilwaith yr Economi  
Department for Economic Infrastructure



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40)  
(GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS  
CEFNFFORDD) 201-**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40)  
(GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN) (FFYRDD YMYL)  
201-**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU  
(CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT  
LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN)) 201-**

**PROFLEN DYSTIOLAETH – RHAN C - CRYNODEB**

**MARK DIXON, BEng (Anrh) CEng CEnv MICE**

**LLYWODRAETH CYMRU, PRIF DYST**

**CYFEIRNOD Y DDOGFEN: WG Ref. 1.1.3**

**Cynnwys**

<b>Cynnwys</b> .....	<b>2</b>
<b>1. Datganiad Personol</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Cwmpas y Dystiolaeth</b> .....	<b>1</b>
<b>3. Y Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig</b> .....	<b>2</b>
<b>4. Cefndir</b> .....	<b>2</b>
<b>5. Yr Angen am y Cynllun Cyhoeddedig</b> .....	<b>6</b>
<b>6. Amcanion y Cynllun Cyhoeddedig</b> .....	<b>7</b>
<b>7. Disgrifiad o'r Cynllun Cyhoeddedig</b> .....	<b>8</b>
<b>8. Arfarniad a Mesurau Lliniaru Amgylcheddol</b> .....	<b>10</b>
<b>9. Datblygu Cynaliadwy</b> .....	<b>10</b>
<b>10. Gwelliannau i'r A40 bresennol (y bwriedir tynnu ei statws cefnffordd)</b> .....	<b>10</b>
<b>11. Adeiladu</b> .....	<b>11</b>
<b>12. Caffael Tir a Digolledu</b> .....	<b>13</b>
<b>13. Crynodeb o Gefnogaeth, Gwrthwynebiadau a Chynrychiolaethau</b> .....	<b>13</b>
<b>14. Casgliadau</b> .....	<b>14</b>

## 1. Datganiad Personol

- 1.1 Fy enw i yw Mark Dixon. Rwyf yn Beiriannydd Sifil Siartredig ac wedi bod yn Gyfarwyddwr Prosiect Llywodraeth Cymru gyda chyfrifoldeb am Gynllun Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Cynllun) ers 2019.
- 1.2 Mae'r dystiolaeth yn y Broflen Dystiolaeth hon yn wir, a'r safbwyntiau a fynegir yw fy safbwyntiau gwir a phroffesiynol.

## 2. Cwmpas y Dystiolaeth

- 2.1 Mae'r Datganiad cryno hwn yn ymdrin â'r cefndir a'r cyfiawnhad i adeiladu'r Cynllun Cyhoeddus a amlinellir yn fanylach yn nogfennau (WG 1.1.1) a (WG 1.1.2). I'm cynorthwyo i gyflwyno dystiolaeth yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus hwn, byddaf yn dibynnu ar y Tystion Arbenigol canlynol i ymdrin â'u meysydd arbenigol unigol:
  - a) Mr Philip Thiele BEng (Anrh) MRes CEng MICE (Traffig ac Economeg) (WG1.2)
  - b) Mr Tom Edwards MEng CEng MICE MCIHT (Peirianeg) (WG 1.3)
  - c) Mr Andrew Sumner CMLI (Yr Amgylchedd) (WG 1.4)
  - ch) Mr Pete Wells BSc MSc MCIEEM Cenv (Ecoleg) (WG 1.5)
  - d) Mr David Hiller BSc MSc PhD Ceng MIOA MIMMM FGS (Sŵn) (WG 1.6)
  - dd) Mr John Davies MBE BSC MRTPI (Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy) (WG1.7).
- 2.2 Byddaf hefyd yn dibynnu ar y broflen dystiolaeth ganlynol sydd wedi'i chynnwys mewn atodiad ym mhroflen dystiolaeth Andrew Sumner:
  - e) Mr Tony Kernon BSc (Anrh), MRICS, FBIAC (Amaethyddiaeth)

### 3. Y Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

- 3.1 Mae'r Gorchmynion Drafft yn amlinellu'r hawliau a'r tir sy'n angenrheidiol er mwyn i Lywodraeth Cymru weithredu'r Cynllun.
- 3.2 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn amlygu prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau'r effeithiau a darparu gwelliannau amgylcheddol lle y bo'n ymarferol.
- 3.3 Cyhoeddwyd y Gorchymyn Llinell drafft (Doc. 2.01.01) a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (SRO) drafft (Doc. 2.02.01) ar 31 Gorffennaf 2019, a chyhoeddwyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) drafft (Doc. 2.03.01) ar 07 Awst 2019. Daeth y cyfnod gwrthwynebu ar gyfer pob un o'r rhain i ben ar 20 Medi 2019. Yn ogystal, cyhoeddwyd Datganiad Amgylcheddol (Doc. 3.01.01) a Datganiad i Lywio Asesiad Priodol (SIAA) (Doc. 4.6.12) ar 31 Gorffennaf 2019.
- 3.4 Cadarnhaf fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi hysbysiad o'i bwriad i gynnal yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus hwn a chyfarfod cyn-Ymchwiliad i'r holl wrthwynebwyr yn unigol ar 06 Tachwedd 2019 a thrwy hysbysiad a gyhoeddwyd yn y wasg ar y dyddiad hwn, yn unol â Rheolau Prifffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 (Doc. 4.01.75) a Rheolau Prynu Gorfodol gan Weinidogion (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 (Doc. 4.01.76). Cadarnhaf fod hysbysiad cyhoeddus a oedd yn rhoi manylion yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus wedi cael ei gyhoeddi ar 29 Ionawr 2020.

### 4. Cefndir

- 4.1 Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fframwaith Trafnidiaeth Cymru. Roedd y fframwaith hwn yn datgan y bu coridor trafndiaeth y dwyrain-gorllewin yng ngorllewin Cymru yn destun astudiaeth aml-ddull yn y 1990au, a ddaeth i'r casgliad bod angen gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr.

- 4.2 Ym mis Mawrth 2002, cyhoeddwyd y Flaenraglen Cefnffyrdd (TRFP)<sup>1</sup> (Doc. 4.01.44) a oedd yn cynnwys yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr. Yn ôl y TRFP:

*“Mae gwella cefnffordd yr A40, boed hynny i safon ffordd gerbydau sengl neu ddeuol, yn fuddiol o safbwynt economaidd. Ni fyddai gwella'r ffordd yn cael effaith o bwys ar nifer y bobl sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus...*

*Yr A40 yng ngorllewin Cymru yw'r rhan isaf ei safon o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn y Deyrnas Unedig ac mae problemau mawr yn gysylltiedig ag uwchraddio'r capasiti cludo nwyddau ar y rheilffordd yn yr ardal hon, sy'n golygu nad yw gwelliant arwyddocaol yn ymarferol yn y dyfodol rhagweladwy...*

*Felly, rydym yn fodlon bod angen gwella'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlffordd ac y bydd buddiannau economaidd yn deillio o hynny. Mae'n debygol y bydd cyfiawnhad dros uwchraddio'r ffordd i safon ffordd gerbydau ddeuol ond, cyn y gwneir penderfyniad yn y pen draw, mae angen i ni gael rhagor o wybodaeth am y goblygiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â safonau amgen.”*

- 4.3 Wedi hynny, comisiynwyd Adroddiad Opsiynau Llwybr (ROR) (Doc. 4.02.01 a Doc. 4.02.02) i archwilio'r opsiynau ar gyfer ffordd gerbydau sengl a deuol.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Blaenraglen Cefnffyrdd 2002 (Doc. 4.01.44)

- 4.4 Yn dilyn canfyddiadau'r arfarniad yn ROR 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i TRFP 2002 (Doc. 4.01.44). Roedd y diweddariad yn cynnwys y ddau gynllun gwella mawr canlynol ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr:
- a) Gwelliant yr A40 Penblewin – Parc Slebets (a gwblhawyd ym mis Mawrth 2011); a
  - b) Gwelliant yr A40 Llanddewi Felfre i Benblewin (yr hyn sydd dan sylw yn y Gorchmynion drafft cyhoeddedig).
- 4.5 Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, cwblhawyd astudiaeth dechnegol ychwanegol yn 2006, a ystyriodd ddau opsiwn llwybr arall ynghyd â strategaeth ffordd gerbydau Sengl Lydan (WS) 2+1 yn lle strategaeth ffordd gerbydau sengl.
- 4.6 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Lwybr a Ffefrir (a adwaenir fel TR111 (Doc. 4.02.08)) yn 2010, a chyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus 2006<sup>2</sup>. Diben TR111 (Doc. 4.02.08) yw gwarchod y llwybr cyfan at ddibenion cynllunio o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995.
- 4.7 Roedd y TR111 (Doc. 4.02.08) yn cynnwys cyfuniad o ffordd osgoi i'r gogledd o Landdewi Felfre a gwelliannau nad ydynt ar y ffordd bresennol rhwng Coed Ffynnon a Phenblewin.
- 4.8 Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Edwina Hart AC CStJ MBE, sef Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth. Roedd y datganiad yn cynnwys y canlynol:

*“Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi pennu y dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r A40, ac mae'n fwriad gen i ddatblygu ymhellach y gwelliannau a gynigiwyd eisoes.”*

---

<sup>2</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gwelliant yr A40 Llanddewi Felfre – Penblewin, Datganiad Canlyniadau o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwefror 2010) (Doc. 4.02.07)

- 4.9 Ar 12 Tachwedd 2014, wrth roi diweddariad ar gau Purfa Murco yn Aberdaugleddau, gwnaeth y Gweinidog Ddatganiad Ilafar mewn Sesiwn Lawn:

*“O ran cysylltiadau trafnidiaeth, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gyflymu'r rhaglen ar gyfer cyflawni gwelliannau yn Llanddewi Felffre i'r graddau mwyaf posibl.”*

- 4.10 Ystyriodd Astudiaeth yr A40 Sanclêr i Hwlfordd a gynhaliwyd yn 2015<sup>3</sup> (Doc. 4.02.10) opsiynau ar gyfer gwella'r A40, a aseswyd trwy broses arfarnu WelTAG, ac roedd yn cynnwys y gwelliant i'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad:

*“Mae achos da o hyd dros fwrw ymlaen â chynllun gwella'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin, gan ddefnyddio'r cyfluniad 2+1 sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn yr Atodlen Drafnidiaeth Genedlaethol.*

*Mae'r cynllun yn cynnwys hydoedd clir ar gyfer goddiweddyd, byddai'n mynd i'r afael â gwahanu cymunedol ym mhentref Llanddewi Felffre a byddai'n sicrhau gwelliannau bach i amser siwrneiau, dibynadwyedd siwrneiau a diogelwch ar yr A40.”*

- 4.11 Ym mis Mehefin 2015, mewn datganiad ysgrifenedig ar Astudiaeth Gwella'r A40, nododd y Gweinidog:

*“Fy mwriad yw bwrw ymlaen â chyflawni Cynllun yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin cyn gynted ag y bo modd...”*

- 4.12 Ym mis Chwefror 2017, penododd Llywodraeth Cymru Carillion, gydag Arup ac RML ('Tîm Carillion') yn gynghorwyr technegol ac amgylcheddol, i ddatblygu dyluniad y Gwelliannau arfaethedig i'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin hyd at gyhoeddi Gorchmynion drafft.

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Astudiaeth yr A40 Sanclêr i Hwlfordd, Adroddiad Opsiynau Dylunio (Mehefin 2015) (Doc. 4.02.10)

4.13 Aeth Carillion i'r wal ym mis Ionawr 2018. Wedi hynny, penododd Llywodraeth Cymru Arup, a gynorthwyir gan RML, i barhau i ddatblygu'r dyluniad hyd at gyhoeddi Gorchmynion drafft ac i gefnogi Llywodraeth Cymru trwy'r broses Statudol.

## 5. Yr Angen am y Cynllun Cyhoeddiedig

5.1 Mae'r A40 yn llwybr o bwysigrwydd strategol cenedlaethol a rhyngwladol sy'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (T-ENT). Ar lefel ranbarthol a lleol, mae'n gwasanaethu tref sirol Hwlfordd, economi dwristiaeth canol a gogledd Sir Benfro, porthladd Abergwaun a thref ddiwydiannol Aberdaugleddau i'r de.

5.2 Amlygodd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 2017<sup>4</sup> (Doc 4.03.03 i 4.03.08) ystod o broblemau go iawn a chanfyddedig yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin, sef:

1. Cyfleoedd cyfyngedig ac anghyson i oddiweddyd
2. Platwnio
3. Mae llwybr yr A40 yn mynd trwy ardal boblog, gan ei gwahanu o bobtu'r ffordd a chreu problemau llygredd aer a sŵn
4. Traffig araf yn ystod misoedd yr haf
5. Mae gan y rhanbarth lefelau cynhyrchedd is na'r cyfartaledd cenedlaethol
6. Mae diweithdra yn y rhanbarth ar ei uchaf ym mhrif ardaloedd diwydiannol Aberdaugleddau a Doc Penfro
7. Absenoldeb sefydliadau addysg uwch yn Sir Benfro
8. Ystyrir bod Sir Benfro yn anghysbell, sy'n atal twf yn y rhanbarth

---

<sup>4</sup> Astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 2017 (Doc 4.01.11)



## 6. Amcanion y Cynllun Cyhoeddus

### 6.1 Dyma amcanion y Cynllun:

- A1** Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth;
- A2** Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun ac Aberdaugleddau yng ngorllewin Cymru;
- A3** Lleihau hollti cymunedol a darparu buddion o ran iechyd ac amwynderau;
- A4** Lleihau nifer y gwrthdrawiadau a'u difrifoldeb;
- A5** Hyrwyddo teithio llesol trwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach;
- A6** Cyflawni Cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafndiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafndiaeth allweddol;
- A7** Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwysu gwastraff a charbon;
- A8** Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau, lle bo hynny'n ymarferol.

6.2 Yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WeITAG 2017) (Doc 4.01.11), defnyddiwyd ymagwedd a arweinir gan amcanion. Mae hyn yn golygu bod Cynllun yn dechrau trwy amlygu problemau a chyfleoedd a diffinio'r hyn sydd i'w gyflawni.

- 6.3 Wrth ddatblygu'r amcanion, cynhaliwyd adolygiad yn erbyn y nodau llesiant fel y'u cyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA 2015) (Doc. 4.01.10), gan helpu i sicrhau bod amcanion y Cynllun yn cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy ehangach Llywodraeth Cymru, ac yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

## 7. Disgrifiad o'r Cynllun Cyhoeddedig

- 7.1 Byddai'r Cynllun yn cynnwys ffordd lydan sengl (WS) 2+1 4.3km o hyd. Byddai hyn yn darparu dwy lôn i un cyfeiriad ac un lôn i'r cyfeiriad arall ar hyd y Cynllun.
- 7.2 Byddai'r Cynllun yn darparu ffordd gerbydau safonol WS2+1 mewn tair rhan, gyda chyfanswm o 2.08km i oddiweddyd tua'r dwyrain a 1.05km i oddiweddyd tua'r gorllewin. Byddai'r rhan fwyaf o'r Cynllun yn cael ei adeiladu y tu hwnt i linell bresennol y ffordd, gyda rhan rhwng Henllan Lodge a Ffynnon yn dilyn llinell bresennol y ffordd yn fras.
- 7.3 Byddai'r Cynllun yn dechrau wrth Gylchfan Penblewin hyd nes y byddai'n cyrraedd Cylchfan newydd Dwyrain Llanddewi Felffre.
- 7.4 Byddai ffordd fynediad newydd yn cael ei hadeiladu ar hyd rhan o ymyl gogleddol y gefnffordd arfaethedig, a fyddai'n cysylltu'r A478 â'r briffordd sy'n arwain at Drefangor. Byddai'r ffordd hon yn darparu mynediad i Fynwent Trefangor, a busnesau amaethyddol.
- 7.5 Gan deithio tua'r dwyrain o Benblewin, byddai'r gefnffordd newydd wedi'i lleoli i'r gogledd o'r A40 bresennol. Byddai dwy lôn yn cael eu darparu tua'r dwyrain a byddai un lôn yn cael ei darparu tua'r gorllewin.
- 7.6 Byddai'r ffordd bresennol yn cael ei chadw i ganiatáu mynediad i eiddo ar hyd y llwybr. Byddai ffordd ymyl newydd yn cael ei hadeiladu i'r de o'r A40 wrth Henllan Lodge i gysylltu'r A40 bresennol â'r ffordd sy'n arwain tua'r de i Henllan. Byddai hyn yn darparu mynediad amgen i Landdewi

Felffre ar hyd ffyrdd presennol, gan felly wella cydnerthedd y rhwydwaith.

- 7.7 Byddai tanffordd newydd yn cael ei darparu i'r dwyrain o Gapel Ffynnon i alluogi cerddwyr, beicwyr a marchogion i groesi o dan y gefnffordd newydd. Byddai llwybrau ceffylau'n cael eu darparu i gysylltu'r danffordd â'r ffyrdd ymyl presennol i'r gorllewin fel bod marchogion yn gallu parhau i farchogaeth. Caiff cerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r llwybrau ceffylau hyn hefyd.
- 7.8 I'r dwyrain o danffordd arfaethedig Capel Ffynnon, byddai llwybr troed / llwybr beiciau yn cael ei ddarparu ar ochr ddeheuol y gefnffordd, i gysylltu â Llanddewi Felffre. Byddai hyn yn darparu cyfleuster croesi diogel yn arwain i / o'r Capel ac eiddo amgylchynol.
- 7.9 I'r dwyrain o Henllan Lodge, byddai'r gefnffordd newydd yn cael ei hadeiladu gan ddilyn llinell yr A40 bresennol yn fras; byddai'r rhan oddiweddyd 2+1 tua'r dwyrain yn culhau i ran un lôn cyn Cyffordd arfaethedig Gorllewin Llanddewi Felffre.
- 7.10 Byddai Cyffordd Gorllewin Llanddewi Felffre yn gyffordd T groesgam a byddai'n cael ei hadeiladu i'r gogledd o'r A40 bresennol.
- 7.11 Byddai braich ogleddol yn darparu mynediad i Gapel Ffynnon ac amryw eiddo a ffermydd yn y cyffiniau, tra byddai braich ddeheuol newydd yn darparu mynediad i bentref Llanddewi Felffre.
- 7.12 Byddai'r llwybr troed cyhoeddus sy'n mynd ar hyd y trac mynediad presennol i Ben-troydin-fâch yn cael ei ddargyfeirio.
- 7.13 I'r dwyrain o Ben-troydin-fâch, byddai rhan oddiweddyd yn cael ei darparu ar gyfer traffig tua'r gorllewin. Byddai'r ffordd yn mynd i mewn i drychiad a byddai trosbont newydd yn cael ei darparu er mwyn cynnal mynediad ar hyd Llanfallteg Road.

7.14 Gan deithio tua'r dwyrain o'r drosbont newydd yn Llanfallteg Road, byddai'r ddarpariaeth oddiweddyd yn newid i ddarparu cyfleoedd goddiweddyd tua'r dwyrain hyd nes y byddai'n cyrraedd Cylchfan newydd Dwyrain Llanddewi Felffre.

## **8. Arfarniad a Mesurau Lliniaru Amgylcheddol**

8.1 Adroddir ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol y Cynllun, gan gynnwys ystyriaeth o'r cam adeiladu, yn fanwl yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) (WG Ref. 3.01.01), ynghyd â'r mesurau lliniaru arfaethedig. Mae Cofnod o Benderfyniad, sy'n amlinellu'r broses a gynhaliwyd i benderfynu p'un a oedd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), yn ofynnol ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.3 y Datganiad Amgylcheddol (Doc. 3.02.03).

## **9. Datblygu Cynaliadwy**

9.1 Mae'r Adroddiad Datblygu Cynaliadwy (Doc.4.03.09) yn archwilio i ba raddau yr oedd y broses o ddethol a datblygu'r Cynllun wedi dilyn yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a amlinellir yn WFGA 2015, a daeth i'r casgliad bod proses dethol a dylunio'r Cynllun wedi cydymffurfio â'r pum ffordd o weithio. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos sut y byddai'r Cynllun yn cyfrannu at saith nod llesiant WFGA 2015 ac yn cyflawni amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru a amlinellir yn Ffyniant i Bawb<sup>5</sup> (Doc. 4.01.12).

## **10. Gwelliannau i'r A40 bresennol (y bwriedir tynnu ei statws cefnffordd)**

10.1 Mae'r Cynllun Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd (Doc. 2.01.03) yn dangos y rhannau o gefnffordd bresennol yr A40 a fyddai'n colli statws cefnffordd, sy'n golygu y byddai'r berchenogaeth arnynt a'r

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (Medi 2017) (Doc. 4.01.12)

cyfrifoldeb o'u cynnal a'u cadw yn cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r awdurdod priffyrdd lleol, sef Cyngor Sir Penfro.

- 10.2 Mae'r gostyngiad 96% a ragwelir mewn traffig trwy Landdewi Felffre pan fyddai'r Cynllun ar waith (Doc 4.05.03), yn darparu cyfleoedd i ddiwygio gosodiad y briffordd trwy'r pentref.
- 10.3 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gwelliannau arfaethedig a alluogir trwy dynnu statws cefnffordd yr A40 bresennol yn ategu'r Cynllun a'r Gorchmynion drafft. Nid yw'r gwaith gwella yn rhan o'r Gorchmynion drafft, ac nid oes angen cymryd unrhyw dir yn y Gorchmyn Pryn Gorfodol ar gyfer y cynigion. Mae Tom Edwards yn disgrifio'r gwelliannau yn ei dystiolaeth (WG 1.3.2).
- 10.4 Bydd manylion a dull darparu'r gwelliannau arfaethedig i'r A40 bresennol a alluogir trwy dynnu statws cefnffordd yn cael eu harchwilio ymhellach gyda Chyngor Sir Penfro.

## 11. Adeiladu

- 11.1 Yn amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau statudol yn foddhaol, byddai contractwr Dylunio ac Adeiladu yn cael ei gaffael ar gyfer cam dylunio manwl ac adeiladu'r Cynllun. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gymryd tua 18 mis, gan ddechrau'n gynnar yn 2021 a gorffen erbyn diwedd 2022.
- 11.2 Mae Adroddiad Adeiladu ac Adeiladwyedd (Doc. 4.04.09) wedi cael ei baratoi sy'n darparu methodoleg adeiladu amlinellol ar gyfer y Cynllun, gan gynnwys diagramau fesul cyfnod / dilyniannu mewn lleoliadau rhyngwyneb allweddol.
- 11.3 Un o ofynion allweddol Llywodraeth Cymru yw cynyddu budd cynlluniau seilwaith mawr i'r gymuned gymaint â phosibl. Byddai'r contract a ddyfernir ar gyfer cam dylunio manwl ac adeiladu'r Cynllun yn cynnwys gofynion ar gyfer Buddiannau Cymunedol, a byddai'n ofynnol i'r contractwr a benodir gynyddu effaith gwariant cyhoeddus yn y cymunedau lleol i'r eithaf yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai hyn yn

cynnwys targedau ar gyfer: recriwtio, darparu hyfforddiant,  
prentisiaethau ac addysg, a defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol.

## **12. Caffael Tir a Digolledu**

12.1 Mae'r tir a gymerir a'r hawliau sydd i'w caffael, a ddangosir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol, yn cynrychioli'r lleiaf sy'n angenrheidiol i adeiladu, lliniaru, gweithredu a chynnal a chadw'r Cynllun arfaethedig. Mae'r tir sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu yn unig ar gyfer gwaith dros dro wedi cael ei amlygu ar wahân yn llythyrau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol.

12.2 Byddai darpariaethau Deddf Caffael Tir 1981 (Doc. 4.01.04) yn berthnasol.

## **13. Crynodeb o Gefnogaeth, Gwrthwynebiadau a Chynrychiolaethau**

13.1 Rhoddodd cyhoeddi'r Gorchmynion drafft gyfle i unrhyw unigolyn neu sefydliad wrthwynebu, cefnogi, neu awgrymu dewisiadau amgen i'r Cynllun. I grynhoi, ar adeg ysgrifennu'r dystiolaeth:

- a) derbyniwyd 56 llythyr neu neges e-bost unigryw yn mynegi cefnogaeth glir i'r Cynllun;
- b) derbyniwyd pum llythyr neu neges e-bost unigryw yn mynegi'n glir nad yw'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r Cynllun;
- c) derbyniwyd 36 gwrthwynebiad unigryw i'r Cynllun, yr oedd 20 ohonynt wedi'u cyflwyno gan wrthwynebwyr statudol; ac
- ch) mae saith gwrthwynebiad wedi cael eu tynnu'n ôl ers hynny gan yr ymgynghoreion unigol. Mae tri o'r gwrthwynebwyr hyn wedi mynegi eu cefnogaeth i'r Cynllun bellach (sydd wedi'u cynnwys yn y 56 a nodwyd yn adran a. uchod).

## 14. Casgliadau

- 14.1 Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth, fel yr amlinellir yn fy Natganiad o Achos Rhan A – Datganiad Polisi (WG Ref 1.1.1).
- 14.2 Byddai'r cynigion yn bodloni amcanion y Cynllun ac yn darparu priffordd a ddyluniwyd yn unol â'r safonau presennol sy'n fwy diogel ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i oddiweddyd, amser siwrneiau mwy dibynadwy a chydnerthedd i ymdopi â thraffig yn y dyfodol.
- 14.3 Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i asesiad manwl a chyfranogiad cynhwysfawr gan randdeiliaid, a gynhaliwyd ar hyd nifer o flynyddoedd.
- 14.4 Mae'r Cynllun yn gwella mynediad ar gyfer pobl a nwyddau ar hyd coridor trafndiaeth y dwyrain-gorllewin ac yn gwella mynediad i: economi dwristiaeth Sir Benfro, porthladdoedd Abergwaun ac Aberdaugleddau, ac Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.
- 14.5 Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd yn rhan o Astudiaeth WeITAG (Doc. 4.03.03 i Doc. 4.03.08), a dyma'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion a amlinellwyd o ganlyniad i'r astudiaeth honno: mae'n gwella perfformiad yr A40 fel llwybr TEN-T ac yn gwella cydnerthedd y rhwydwaith cefnffyrdd yn ne Cymru."
- 14.6 Mae'r Datganiad Amgylcheddol (Doc. 3.01.01) yn amlygu effeithiau niweidiol a buddiol ac effeithiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun o dan nifer o benawdau amgylcheddol. Mae hefyd yn disgrifio sut y byddai unrhyw effeithiau niweidiol yn cael eu lliniaru trwy waith sydd wedi'i integreiddio yn y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys: plannu ardaloedd newydd o goetir, darparu byndiau tirweddu a mesurau i liniaru'r effaith ecolegol.



- 14.7 Mae'r holl wrthwynebiadau wedi cael eu hystyried a chyflwynwyd ymatebion i bob pwynt a godwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i liniaru effeithiau, lle y bo'n ymarferol.
- 14.8 Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai'r Cynllun yn effeithio ar hawl pobl i dir / eiddo, mae angen ystyried hyn yn erbyn y buddion lleol a rhanbarthol y byddai'r Cynllun yn eu darparu, sydd er budd ehangach y cyhoedd.
- 14.9 Yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr Arolygydd i ystyried y Datganiad Achos hwn a Datganiadau Achos y Tystion Arbenigol, ac argymhell i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bod y Gorchmynion Llinell, Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol cyhoeddedig yn cael eu gwneud, gan ystyried y cywiriadau a'r addasiadau a gyflwynir yn yr Ymchwiliad.
- 14.10 Fel yr amlinellwyd yn fy Mhroflen Dystiolaeth i, ac ym Mhroflenni Tystiolaeth fy nhystion arbenigol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw rwystr rhag gweithredu'r Cynllun.